

SWISS VALLEY



Swiss Valley - wedi'i leoli yng ngogledd yr ardal Wledig ac yn elwa o fynediad i gefn gwlad gyfagos a golygfeydd godidog o Aber Lluchwr. Mae Swiss Valley yn gartref i 2,525 o bobol - mae ganddo'r boblogaeth hynaf yn Llanelli Wledig ac yn cyflwyno materion penodol i'r dyfodol yn nhermau mynediad (mae'r ardal ar dir serth iawn) a gwasanaethau gofal. Yn ardal breswyl yn bennaf, mae'r ardal yn ymylu ar ddau o brif gyflogwyr Felinfoel (Gestamp a Calsonic) ac mae un o'r prif ffyrdd i mewn i Lanelli yn mynd trwy'r gymuned sy'n cael effaith ar ansawdd aer ar adegau penodol.

Nodwyd fod cadw'r ardal yn lân ac annog mwy o ymgysylltiad cymunedol wrth daclo materion lleol fel blaenoriaethau ar gyfer sylw trwy holl broses y cynllun lle cyfan.

Materion

- Parc chwarae i blant- diogelwch cyfarpar ac ansawdd cyffredinol yr ardal (gwelliant wedi'i gynllunio ar gyfer haf 2015)
- Pobol ifanc wedi'u dadleoli- rhoi cynllun y parc iddyn nhw
- Blaen y siop- diffyg harddwch
- Cyflwr y ceunant- ansawdd amgylcheddol
- Materion draenio/carthffosiaeth
- Etifeddu cynllunio gwael- diffyg lleoedd parcio i drigolion
- Mân-ladrad – goleuadau addurniadol
- Swyddfa Bost wedi mynd
- Teithiau Bws – amser a gymer i fynd i'r dref- 5.45 amser y bws olaf o'r dref
- Prif ffordd- cynnydd yn y traffig a chyflymder- ansawdd aer?

- Defnydd o'r cwar – gorfodi cyfyngiadau?
- Cartrefi gwag – gor dyfiant – effeithio delwedd yr ardal
- Apathi – lefel cyfranogiad yn y gymdeithas trigolion

Syniadau

Blaenoriaeth 1 – prosiect agor caeau'r ysgol ar gyfer defnydd ehangach/chwaraeon i blant hŷn

Blaenoriaeth 2 – Glasu gwell a chynnal a chadw yr ardal o flaen y siop

Blaenoriaeth 3 – Annog mwy o ymgysylltiad cymunedol – darparu amwynderau lleol/glanhau'r gymuned- hyrwyddo y dull Credydau Amser